Pobol yn hoffi gwybod beth sy'n dod.
Predictability.
Yn hoffi pethau wedi'u gwneud mewn ffordd arbennig.
Roedd hen ffrind i fi yn bwyta'r union un frechdan ar yr union un diwrnod bob wythnos yn 'rysgol. Dydd Llun, ham. Dydd Mawrth, cheddar. Mercher, twrci Bernard Matthews. Iau, caws soft. Dydd Gwener, fish paste. Bob wythnos. Dim eithriadau.
Dim byd annisgwyl.
Well-oiled machine.
Mae gan ddynoliaeth bosibiliadau helaeth, ond mae'r rhan fwyaf ohonom yn cadw ein byd yn fach er mwyn gwneud pethau'n haws.
Dim sialens.

Mae HAN yn ymddangos ar y sgrin mewn sgwrs 'Skype'.

HAN Wyt ti really'n mynd i agor drama yn wafflo am Ikea?

Erbyn hyn, mae ALUN yn eistedd o flaen y laptop.

ALUN *(I'r sgrin)* Ti ddim yn meddwl bod e'n gweithio?

HAN Sai'n gwbod . . . O'dd y bit am y meatballs yn eitha doniol.

ALUN Ma' pawb yn hoffi meatballs Ikea.

HAN Heblaw vegetarians. Ac ma'n rhaid i ti gael gwared o'r bit 'da'r sandwiches. Ma'n mynd mla'n a mla'n. O'n i'n bored yn darllen e.

ALUN Dyna'r pwrpas. Routine. Dangos diflastod bywyd.

HAN Am Owen o't ti'n siarad, ontefe?

ALUN Ie, Owen rhywbeth. Yr un hen frechdanau trwy'r ysgol gynradd i gyd.

HAN A neb ishe eistedd drws nesa iddo fe bob dydd Gwener achos bod y fish paste yn drewi.

ALUN/HAN Fish paste Fridays.

Siarad

- Beth yw eich profiad chi gyda dodrefn *flat-pack*?
- Sut un ydych chi gartref – lle i bopeth a phopeth yn ei le, neu'n llai trefnus? Beth am bobl eraill sy'n byw gyda chi?
- Ydych chi'n hoff o gadw at drefn gyfarwydd, neu oes well ganddoch chi fentro a phrofi pethau newydd trwy'r amser?
- Oes bodau estron yn byw y tu hwnt i'r ddaear?
- Fyddwch chi'n mynd i weld y ddrama *Estron* yn eich theatr leol?

Yr Awdur – Hefin Robinson

Daw Hefin Robinson yn wreiddiol o Gaerfyrddin. Yno derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol y Dderwen ac Ysgol Bro Myrddin, cyn symud ymlaen i astudio Drama ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ar ôl graddio, gweithiodd fel actor mewn amryw o brosiectau theatr-mewn-addysg ac yna symud i Stratford-upon-Avon i weithio gyda'r Royal Shakespeare Company, lle cafodd y cyfle gwerthfawr o wylio meistri wrth eu gwaith mewn sefydliad creadigol byd-enwog.

Wedi hyn, treuliodd amser yn Llundain er mwyn dilyn astudiaethau pellach yng ngwaith Shakespeare yn LAMDA.

Ers dychwelyd i Gymru, mae wedi gweithio i gwmnïau amrywiol yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a BBC Worldwide.

Erbyn hyn mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i Ganolfan Mileniwm Cymru ochr yn ochr â pharhau â'i waith ysgrifennu a theatr.

Fel dramodydd, mae Hefin wedi ysgrifennu ar gyfer cwmnïau theatr Dirty Protest a The Other Room. Yn ogystal ag ennill y Fedal Ddrama am 'Estron' yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2016, cafodd enwebiad fel 'Dramodydd Gorau yn yr Iaith Gymraeg' yng Ngwobrau Theatr Cymru 2018.

TAITH ESTRON

Theatr y Glowyr, Rhydaman	19 a 20 Ebrill 2018
Canolfan Garth Olwg, Pentre'r Eglwys	24 Ebrill 2018 **(sgwrs i ddysgwyr cyn sioe)**
Neuadd Dwyfor, Pwllheli	26 Ebrill 2018
Y Stiwt, Rhosllannerchrugog	1 Mai 2018
Theatr Bro Alaw, Bodedern	3 Mai 2018
Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron	5 Mai 2018
Pontio, Bangor	8 Mai 2018 **(sgwrs i ddysgwyr cyn sioe)**
Canolfan Morlan, Aberystwyth	9 Mai 2018
Neuadd Gymunedol Maenclochog	11 Mai 2018
Ffwrnes, Llanelli	12 Mai 2018
Chapter, Caerdydd	14, 15 a 16 Mai 2018 **(Sgwrs i ddysgwyr cyn sioe, 14 Mai)**
Canolfan y Celfyddydau Taliesin, Abertawe	17 Mai 2018
Galeri, Caernarfon	19 Mai 2018